*(parhad o dudalen 2)*

hen borthmyn yw Llan Ffestiniog, ond effeithiwyd ar yr holl ardal gyda dyfodiad y diwydiant llechi yn ystod y ganrif ddiwethaf. Y Methodistiaid oedd y cyntaf i sefydlu ac adeiladu capel yn y plwyf. Cyn adeiladu'r capel arferai'r Methodistiaid ymgynnull mewn tafarn o'r enw Tŷ Uchaf, o gwmpas y blynyddoedd 1770 a 1780. Adeiladwyd plasdy o gapel yn 1837 sy'n goroesi heddiw.

Ni welwyd cofnod o sefydlu'r llyfrgell, ond fe'i lleolir mewn cwpwrdd gwydr yn y festri. O'r tua 300 o lyfrau, ceir cyfran o 82% yn Gymraeg, sef yr uchaf o blith llyfrgelloedd yr astudiaeth hon. O ran trefn a gweinyddiaeth y llyfrgell, cafwyd system o rifo'r llyfrau o fewn y siaced lwch ac ar y meingefn, ac mae'r rhifau'n cyfateb. Nid oes rheolau o fewn y llyfrau.

O edrych ar y casgliad, fe amlygir teyrngarwch cyfundebol ac fe geir ambell lyfr penodol ar gyfer yr Ysgol Sul. O blith y llyfrau cyfundebol gwelir *Traethodau Llenyddol,* a *Traethodau Diwinyddol,* Lewis Edwards, *Cofiant Henry Rees, Y Tadau Methodistaidd,* a *Hanes Methodistiaeth Arfon.* Ychydig o lyfrau seciwlar sydd yma, ond gellir nodi *Cassells' History of England.*

O ran llyfrau cefndir, mae *Y Gwyddoniadur* a *Geiriadur* Charles yn amlwg. Ymysg y cylchgronau fe geir *Y Drysorfa, Trysorfa y Plant,* a *Y Traethodydd.* Ar gyfer yr Ysgol Sul ceir llawlyfrau Undeb Ysgolion Sul y Methodistiaid Calfinaidd, esboniadau cyfundebol eraill, a nifer o Cyfres y Goleuni, Owen Evans.

**Pandy Tudur, Sir Ddinbych**

Lleolir pentref Pandy Tudur mewn ardal amaethyddol o sir Ddinbych. Credir mai tua'r flwyddyn 1790 y dechreuodd yr achos cyntaf mewn tŷ a addaswyd yn ysgoldy ac addoldy'n ddiweddarach. Gellir bod yn sicr mai o Ysgol Sul y sefydlwyd yr achos, a hynny erbyn y flwyddyn 1817. Yn dilyn y Rhyfel Mawr sefydlwyd Llyfrgell yn y Pandy i gofio milwyr yr ardal a gollodd eu bywyd. Ceir tabled pres uwchben y llyfrau i goffáu'r milwyr.

Y mae'r llyfrgell hon yn 'llyfrgell rydd'; hynny yw, y mae at wasanaeth yr holl gymdogaeth. I greu'r llyfrgell prynwyd rhan helaeth o lyfrau'r diweddar Barchedig Evan Davies, Trefriw. Cyfranwyr eraill at y llyfrgell oedd Syr Henry Jones, y Parchedig H. Cernyw Williams, Edward Thomas, Pen-y-groes, a William Williams, Bootle. Agorwyd y llyfrgell yn swyddogol nos Wener, 20 Chwefror 1920, gan y Parchedig E. J. Jones.

Dyma'r unig lyfrgell yn yr astudiaeth hon na chedwid o'r tu ôl i ddrysau gwydr. O'r tua 250 o lyfrau gellir casglu bod oddeutu 70% ohonynt yn Gymraeg. Nid oes golwg am reolau o fewn y llyfrau, ond fe geir o'u mewn stamp swyddogol hirgrwn 'Llyfrgell Rydd Pandy Tudur'. Yn ogystal, ceir trefn fanwl o rifo'r llyfrau. O fewn pob llyfr ceir label crwn gyda llythyren a rhif, e.e. E13, I11. Y mae'r rhifau hyn yn cyfateb i'r rhif ar y meingefn.

Er i'r llyfrgell gael ei sefydlu yn nhrydedd degawd y ganrif hon, perthyn llawer o'i chynnwys i ail hanner y ganrif ddiwethaf. Y rheswm am hynny oedd fod cynifer o roddion wedi eu rhoi i'r llyfrgell i'w sefydlu. Ymysg y llyfrau i'r Ysgolion Sul ceir *Llyfr Joshua* (1895), o gyfres Beibl yr Ysgol Sul, *Esboniad ar Lyfr y Barnwyr at wasanaeth yr Ysgol Sul* (1883), *Lamp yr Ysol Sul, Llyfr Genesis â Nodiadau at wasanaeth Deiliaid yr Ysgol Sul* gan y Parchedig R. Humphreys (1883), a rhan gyntaf *Y Beibl Darluniadol* gan John Kitto a gyfieithwyd gan Ieuan Glan Geirionydd. Ceir peth o waith yr Annibynnwr, Owen Evans, o Gyfres y Goleuni.

Mae'n amlwg bod teyrngarwch cyfundebol o fewn y casgliad, mewn llyfrau megis *Geiriadur* Charles, *Y Gwyddoniadur Cymreig, Gwaith Robert Jones, Rhoslan, Cofiant John Jones Talysarn, Gweithiau Pantycelyn* (1867), cyfrol o *Hanes Henaduriaeth Arfon* a nifer o esboniadau a chofiannau.

Ym Mhandy Tudur yn unig y gwelwyd archifau'r Ysgol Sul, sef un o'r llyfrau cyfrifon a gyhoeddwyd gan Undeb Ysgolion Sabothol y Methodistiaid Calfinaidd. Er bod chwe llyfr cyfrifon wedi ymddangos dim ond y chweched oedd yn Llyfrgell Pandy, sef *Llyfr Llafur deublyg wedi ei fwriadu i anfon Cyfrifon o'r Ysgolion i'r Cyfarfodydd Ysgolion ac i Ysgrifennydd Pwyllgor Ysgolion Sul y Cyfarfod Misol.* Dyddia'r cofnodion o'r flwyddyn 1885.

Gan fod y llyfrgell yn rhannol i'r gymuned yn ogystal ag i'r Ysgol Sul, gellid disgwyl cyfran sylweddol o lyfrau seciwlar o fewn y casgliad. Yn hytrach, yr hyn a geir yw llyfrgell Fethodistaidd, yn cynnwys llyfrau crefyddol a diwinyddol.

**Bethania, Craig-y-don, Llandudno, Sir Gaernarfon**

Yng Nghraig-y-don, ar gyrion tref Llandudno, saif capel Bethania. Fel mewn nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru, yr Ysgol Sul fu'n gyfrwng dechrau'r achos yno. Yn dilyn diwygiad 1859 dechreuwyd ymgynnull mewn tai i gynnal gwasanaethau. Cynyddodd y gynulleidfa ac adeiladwyd y capel cyntaf yn 1862, ac fe'i henwyd yn Pantywennol. Yn 1887 symudwyd i'r capel presennol, Bethania. Er bod cnewyllyn o lyfrgell yn y capel cyn 1931, sefydlwyd prif gorff y llyfrgell drwy ewyllys y Parchedig Evan Hughes a fu'n weinidog ar yr eglwys rhwng 1901 a 1931. Ceir plât metel ar gwpwrdd y llyfrgell i gofio Evan Hughes a'i gyfraniad.

Er mai casgliad Evan Hughes yw calon y llyfrgell, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod llyfrgell weithredol yn bodoli yno cynt. Dywedir hyn, oherwydd pan dderbyniwyd llyfr i'r llyfrgell, rhoddwyd arno rif derbyn a dyddiad ei dderbyn. Y llyfr cynharaf a welwyd oedd rhif 14, a rhoddwyd dyddiad derbyn y llyfr yn 1854. Felly, gellir bod yn weddol sicr i'r llyfrgell gael ei sefydlu oddeutu cychwyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Gogwydd diwinyddol diamheuol y casgliad hwn yw'r Ffydd Ddiwygiedig a'r Piwritaniaid, er enghraifft, *Esboniadau* ac *Institutes* Calfin, gweithiau John Howe, a'r diwinyddion Hodge a Spurgeon. Wrth gwrs, yr hyn mae'r llyfrau yn ei adlewyrchu yw argyhoeddiadau diwinyddol Evan Hughes ei hun. O edrych ar gynnwys y llyfrau Cymraeg mae'n amlwg eu bod at wasanaeth yr Ysgol Sul. Ceir nifer helaeth o lawlyfrau'r Undeb, *Testament yr Ysgol Sabbathol,* ac esboniadau unigol a gyhoeddwyd i gydfynd â'r maes llafur. Ceir casgliad helaeth o gylchgronau megis *Cronicl yr Ysgol Sabbothol, Y Lladmerydd, Y Traethodydd, Y Drysorfa,* a *Trysorfa y Plant.*

Nid oes llyfrau seciwlar o fewn y llyfrgell. Mae ynddi deyrngarwch Methodistaidd gyda darpariaeth eang o gyhoeddiadau at wasanaeth yr Ysgol Sul.

**Caerhun, Sir Gaernarfon**

Llecha pentref Caerhun mewn cesail ar Fynydd Bangor, rhyw ddwy filltir o'r ddinas. Sefydlwyd Ysgol Sul gan y Methodistiaid o gwmpas y blynyddoedd 1810-15. Ni sefydlwyd yr achos ac adeiladu capel hyd y flwyddyn 1831. Adeiladwyd yr ail gapel, y capel presennol, yn 1854.

Ni welwyd cofnod o sefydlu llyfrgell yng Nghaerhun, ond yn sicr dyma lyfrgell leiaf yr astudiaeth gyda phrin 90 o lyfrau a 54% o'r rhain yn yr iaith Gymraeg. Er ei maint mae'n amlwg iddi gael ei gweinyddu fel llyfrgell weithredol. Dyma'r unig lyfrgell a welwyd gyda labeli dyddiad benthyca yn y llyfrau. Yr oedd gan bob aelod rif arbennig

RHEOLAU.

Bydd y llyfrau i'w benthyca, yn unol a'r Rheolau canlynol :—

1.—Y Llyfrgellydd i roddi y llyfrau allan ar ol yr Ysgol Sul.

2.—Fod cylch y benthyciad yn gyfyngedig i aelodau yr Ysgol Sul, ac i aelodau eglwysig y Capel.

3.—Ni chaniateir i fwy nag un llyfr gael ei fenthyca ar unwaith gan un person, a'r benthyciad i fod am wythnos, ond rhoddir hawl gyda chaniatad y Llyfrgellydd i ail fenthyca unrhyw lyfr am wythnos neu ragor os na fydd cais arall am dano.

4.—Ni chaniateir i unrhyw un ail fenthyca llyfr i berson arall. Rhaid i bod cais am fenthyciad gael ei wneud yn bersonol gyda'r Llyfrgellydd, ac i bob benthyciwr ysgrifenu ei enw a'i gyfeiriad ar lyfr y Llyfrgellydd, gogyfer ag enw y llyfr a fenthycir, a rhaid dychwelyd pob llyfr trwy law y Llyfrgellydd.

5.—Os collir llyfr gan fenthyciwr, neu ei amharu fel ag i fod yn ddiwerth, bydd yn ofynol iddo roddi llyfr cyffelyb yn ei le, neu dalu yr hyn a gostiodd, am dano i Drysorydd y Llyfrgell.

6.—Os dychwelir llyfr wedi ei amharu neu ei faeddu yn afresymol, bydd gan y Llyfrgellydd hawl i atal benthyciad drachefn i'r cyfryw berson.

7.—Ni chaniateir benthyciad llyfrau i blant dan 14 oed.

8.—Rhaid i'r oll o'r llyfrau fod yn llaw y Llyfrgellydd ar y Sul olaf yn mhob blwyddyn.

9.—Penderfynir yn derfynol gan Bwyllgor y Llyfrgell unrhyw achos a ddichon godi parthed un, neu fwy, o'r rheolau uchod, yn ogystal a phob achos arall yn nglyn a'r Llyfrgell.

**Bydd yn bleser gan y Pwyllgor dderbyn rhoddion mewn arian neu lyfrau tuag at ychwanegu y Lyfrgell.**

*Rheolau benthyca Llyfrgell Capel Methodistiaid Calfinaidd Llithfaen, 1904.*